

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Environment and Sustainability Committee



Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr
Cyfoeth Naturiol Cymru

3 Mehefin 2014

Annwyl Emyr

Sesiwn dystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar 7 Mai – gwybodaeth bellach

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch ichi a'r Athro Peter Matthews am ddod i'n cyfarfod ar 7 Mai i drafod y cynnydd a wnaed gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf ers iddo gael ei sefydlu. Yn ystod y sesiwn, codwyd nifer o faterion a byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth bellach yn eu cylch. Diolch ichi am y wybodaeth a ddarparwyd eisoes mewn perthynas â rhagweld llifogydd a Llwybr Arfordir Cymru – mae'r wybodaeth hon wedi cael ei dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd yr ydych yn disgwyl i'r strwythur staffio gael ei gwblhau, gan gynnwys cynnydd o ran ymgorffori'r Byrddau Draenio Mewnol, yn enwedig o ran y trefniadau ar gyfer gweithrediadau traws-ffiniol a sicrhau ymgysylltiad parhaus tirfeddianwyr lleol.

Yn dilyn y cwestiynau a godwyd gan Antoinette Sandbach a Julie Morgan, byddem yn gwerthfawrogi eglurhad o'r prosesau sydd ar waith i ddarparu cyngor i Lywodraeth Cymru. Byddai'n ddefnyddiol

cael manylion ynglŷn â sut y mae'r cyngor gan swyddogion arbenigol yn cael ei ddarparu i Weinidogion Cymru ac eglurhad ynghylch sut y mae cyngor o'r fath yn cael ei ddefnyddio/ei ddilyn e.e. mewn perthynas â'r cyngor a roddwyd ar gynigion ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol cael eglurhad ynghylch cynlluniau i leihau gweithlu Cyfoeth Naturiol Cymru i 1,850. Yn ystod y sesiwn, dywedasoeh y byddai lleihau'r gweithlu i'r nifer hon yn creu bylchau sgiliau ac y byddai angen ailgydbwyso sgiliau o fewn y sefydliad – a wnewch chi egluro beth fyddai hyn yn ei olygu a sut yr ydych yn bwriadu cyflawni hyn? Byddem yn ddiolchgar pe gallech gyfeirio yn eich ymateb at sut y mae'r cynlluniau hyn yn rhoi ystyriaeth i ofynion adnoddau posibl y disgwylir iddynt ddeillio o Fil yr Amgylchedd a hefyd y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa staff fydd yn cael eu derbyn ar gyfer diswyddo gwirfoddol.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am ddatgysylltu'r systemau TG, a chadarnhad ynghylch a oes gennych syniad terfynol o'r costau a'r amserlenni cysylltiedig.

Unwaith eto, byddwch yn cofio bod yr Aelodau wedi crybwyll bod angen gwiriad annibynnol o'r broses o wahanu swyddogaethau, yn enwedig o ystyried y cynigion ar gyfer datblygu mwy o weithgareddau menter. Rwy'n deall bod y wybodaeth hon yn cael ei chasglu ac y bydd yn cael ei anfon atom yn fuan.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r camau yr ydych wedi'u cymryd i wella pa mor gyflym yr ydych yn ymateb i ymgynghoriadau cynllunio ac erbyn pryd yr ydych yn disgwyl gweld y gwelliant.


O ran materion yn ymwneud â mesur buddion nad ydynt yn arian parod sy'n gysylltiedig â'r Achos Busnes ar gyfer creu un corff amgylcheddol, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi manylion ynghylch sut y cafodd buddion nad ydynt yn arian parod eu cyfrifo yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a sut yr ydych yn bwriadu cyfrifo a

chyflwyno buddion nad ydynt yn arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol ac yn y dyfodol.

Yn olaf, byddem yn ddiolchgar am eglurhad ynghylch y £3 miliwn o arbedion, yr arian a gariwyd ymlaen ac a yw hyn yn berthnasol i brosiectau a gafodd eu gwthio yn ôl ac y bydd angen eu hariannu eleni neu a yw'n ymwneud ag arbedion yr oedd yn ofynnol ichi ddod o hyd iddynt i ariannu pwysau ychwanegol eleni. Roedd y papur cyllid a gyflwynwyd i gyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 3 Ebrill yn awgrymu ei fod o ganlyniad i arbedion ac nid tanwario; fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau hyn.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb i'r cwestiynau hyn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun Ffred Jones', written on a light-colored rectangular background.

Alun Ffred Jones AC

Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
Emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Emyr.roberts@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 4444

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

19 Mehefin 2014

Annwyl Alun,

Sesiwn dystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru 7 Mai – cais am wybodaeth bellach

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 3 Mehefin lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth bellach ar nifer o faterion a godwyd yn y cyfarfod Pwyllgor ar 7 Mai.

Mae fy llythyr yn darparu diweddariad ar bob un o'r pynciau yr ydych wedi gofyn am fwy o wybodaeth arnyn nhw.

1. Dyddiad disgwylidig ar gyfer cwblhau'r strwythur staffio

- Mae strwythurau ein Tîm Gweithredol a'n Tîm Arweinyddiaeth eisoes yn bodoli a byddwn cyn bo hir wedi cwblhau penodiad ein Haen Reoli. Yn ogystal, mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r strwythurau staff sy'n weddill mewn ffordd a fydd yn cyflawni ein hamcanion busnes, ac mae'r rhain yn cael eu hystyried yn unol â'n

hegwyddorion dylunio sefydliadol, h.y. timau yn seiliedig ar leoedd yn gweithio mewn cymunedau, gwneud pethau unwaith i Gymru ayyb. Mae'n bwysig cofio bod strwythurau yn esblygu'n barhaol a byddan nhw angen addasu a bod yn hyblyg er mwyn cwrdd â'n blaenoriaethau busnes sy'n newid yn barhaol.

- Fodd bynnag, strwythurau yw un rhan o'r ateb yn unig ac rydym yn ystyried ein ffyrdd o weithio er mwyn ategu trefniadau strwythurol yn ogystal. Gan weithio gyda rheolwyr a chydweithwyr undebau llafur, mae amryfal raglenni ar gyfer newid yn digwydd yn ystod y 3/6 mis nesaf. Mae rhai yn ailgynllunio llwyr o swyddogaethau gwaith ac maen nhw angen y drefn briodol er mwyn bod yn deg gyda staff; tra bod eraill yn adlinio syml o staff a thimau i reolwyr newydd.
- Felly, mae'n anodd bod yn hollol bendant ynghylch 'cwblhau' ein strwythur staffio, ond byddwn yn disgwyl cwblhau'r penodiadau i'n Haen Reoli erbyn diwedd Gorffennaf, a byddwn wedi cwblhau strwythurau eraill i raddau helaeth erbyn diwedd Medi 2014.

2. Cynnydd ar ymgorffori'r Byrddau Draenio Mewnol (BDMau), trefniadau ar gyfer gweithrediadau trawsffiniol ac ymgysylltu parhaus gyda thirfeddianwyr lleol

- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu perthynas waith agos a chynhyrchiol gyda staff y tri BDM er mwyn trafod a datblygu trefniadau ar y cyd ar gyfer trosglwyddo staff, asedau a swyddogaethau.
- Ynglŷn â threfniadau trawsffiniol yn y dyfodol, rydym yn gweithio ar hyn o bryd mewn partneriaeth gyda BDMau Powys a Gwy Isaf, Asiantaeth yr Amgylchedd, Llywodraeth Cymru a Defra. Rydym yn sicrhau bod trefniadau yn bodoli ar gyfer 1 Ebrill 2015 ar gyfer cyflawni gwaith gweithredol yn gydgysylltiedig yng Nghymru ac ar ochr Lloegr o'r ffin yn ogystal. Bydd hyn yn adeiladu ar ddulliau presennol CNC, yr AA a'r BDMau tuag at reoli dŵr trawsffiniol.
- Mae angen trefniadau newydd ar gyfer llywodraethu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid o 1 Ebrill 2015. O ganlyniad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cysylltu â Chadeiryddion presennol y tri BDM a staff y BDMau er mwyn datblygu trefniadau pwrpasol sy'n adlewyrchu'r materion unigol a blaenoriaethau'r cwsmeriaid ar gyfer pob un o'r Rhanbarthau Draenio Mewnol y bydd CNC yn eu gweinyddu o fis Ebrill nesaf.

3. Esboniad ar y mecanweithiau sy'n bodoli ar gyfer darparu cyngor i Lywodraeth Cymru

- Mae'r protocol ar gyfer cynghori Llywodraeth Cymru yr un fath, beth bynnag yw maes y pwnc, h.y. cynllunio neu unrhyw faes arall. Mae cyngor ar gyfer y Gweinidog yn dod yn bennaf o weision sifil Llywodraeth Cymru, ac rydym yn eu cynghori; naill ai drwy fewnbwn uniongyrchol i ddatblygu polisi pan mae swyddogion yn gofyn, trafodaethau drwy grŵp cyfeirio/byrddau rhaglen, fforwm polisi ayyb, neu

drwy ddarparu gwybodaeth er mwyn hwyluso eu hymatebion i Gwestiynau'r Cynulliad.

- Fel rheol, gofynnir am gyngor yn uniongyrchol i'r Gweinidog drwy ein cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gweinidog, ac wedi'i gyflwyno trwof i.
- 4. Sut mae cyngor gan swyddogion arbenigol yn cael ei ddarparu ar gyfer Gweinidogion Cymru. Esboniad sut mae cyngor o'r fath yn cael ei ddilyn ac yn benodol, sut y darparwyd cyngor ar gynigion ar gyfer yr M4 o gwmpas Casnewydd**
- Mae CNC yn darparu cyngor i Lywodraeth Cymru drwy ein swyddogaeth fel ymgynghorai statudol.
 - Mewn perthynas ag ymgysylltiad CNC gyda Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru ar y Cynllun drafft ar gyfer Coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd, gwnaethom ymateb ym mis Rhagfyr 2013 gan ddarparu ein cyngor arbenigol ar y Cynllun drafft a'i Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) a'i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) cysylltiedig. Roedd yr ymatebion hyn wedi'u rhoi i Arup, a oedd yn rheoli'r ymgynghoriad ar ran Llywodraeth Cymru.
 - Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal nifer o gyfarfodydd o'r Grŵp Cyswllt Amgylcheddol ers Gorffennaf 2013, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u mynychu, gan ddarparu cyngor technegol fel bo'n briodol. Yn ychwanegol, cawsom nifer o gyfarfodydd gydag Arup, sy'n gweithio ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn darparu cyngor technegol penodol mewn meysydd ecoleg a chadwraeth natur, risg llifogydd a chynllunio. Mae'r cyngor hwn wedi cael ei ddarparu 'heb ragfarn' i unrhyw benderfyniad gan Lywodraeth Cymru i symud y cynllun drafft ymlaen.
 - Fel gyda holl ymatebion CNC i gwsmeriaid allanol, rydym yn ymgynghori'n eang yn fewnol ar gyfer mewnbwn arbenigol ac yn ei grynhoi i ddarparu ymateb 'un llais'.
 - Ochr yn ochr â'r cyngor a ddarparwyd mewn cyfarfodydd, rydym yn ogystal wedi darparu cyngor ysgrifenedig penodol mewn perthynas ag ymgynghori ar ofynion arolygon a methodolegau ar gyfer nifer o arolygon ecolegol, unwaith eto ar sail 'heb ragfarn'. Mae ein holl ymatebion angen cael eu harwyddo gan uwch reolwr.
 - Felly, bu ein cysylltiad ar gynigion yr M4 gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'u prif ymgynghorwr (Arup) yn hytrach na gyda Gweinidogion Cymru.
- 5. Esboniad ar gynlluniau i leihau ein gweithlu i 1,850**
- Rydym wedi ein hymrwymo i leihau nifer ein gweithlu i 1,850, sy'n unol â'r achos busnes gwreiddiol. Fodd bynnag, dylai gael ei gydnabod nad oedd y ffigwr

gwreiddiol o 1,850 yn ystyried rhai o'r swyddogaethau ychwanegol a staff a oedd wedi trosglwyddo i CNC, er enghraifft Labordy Llanelli.

6. Bylchau mewn sgiliau o ganlyniad, ac ail-gydbwyso sgiliau i reoli hyn

- Ymgwymerwyd ag archwiliad sgiliau yn ein blwyddyn gyntaf o weithredu a oedd yn nodi lle'r oedd ein talent a'n profiad, ac er mwyn ein galluogi i gynllunio strategaethau dysgu a datblygu a strategaethau recriwtio fel ei gilydd. Gwnaethom nodi bylchau mewn sgiliau, yn arbennig felly mewn perthynas â rhai o'r gwasanaethau arbenigol a oedd yn cael eu darparu o'r blaen gan un ai staff yn Asiantaeth yr Amgylchedd neu Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr. Rydym yn parhau i weithio gyda'r meysydd busnes er mwyn deall yr angen a datblygu ffyrdd er mwyn cynnal ein gwybodaeth yn fewnol. Yn gyfochrog â hyn, rydym yn archwilio cyfleoedd ar gyfer cynlluniau lefel mynediad a phrentisiaethau ar gyfer CNC, ac rydym yn datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau academaidd a darparwyr er mwyn lliniaru'r bylchau presennol hyn.
- Bu nifer o staff yn ymadael o CNC drwy ein cynllun ymadael gwirfoddol cyntaf (2013/14). Roedd y meini prawf a ddefnyddiwyd yn rhoi blaenoriaeth ymadael ar gyfer ein Gwasanaethau Corfforaethol. Yn dilyn datblygu ein Cynlluniau Corfforaethol a Busnes (sy'n cynnwys cynllun gweithlu lefel uchel ar gyfer CNC), mae gennym yn awr gynlluniau gweithlu ar gyfer pob maes o'r busnes, a bydd y cynlluniau hyn yn sbarduno ein recriwtio, ein dysgu a'n buddsoddiad datblygu.

7. Sut mae'r cynlluniau hyn yn ystyried gofynion adnoddau posibl a ddisgwylir gan Fil yr Amgylchedd

- Bydd newidiadau ym mhroffil ein gweithlu yn cael ei sbarduno gan ffactorau lluosog yn cynnwys newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru a gofynion newydd a roddwyd arnom ni. Mae hyn yn golygu ein bod angen cynnal datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer yr holl staff a sicrhau bod ein diben craidd yn cael ei ddeall yn dda. Rydym, er enghraifft, wedi bod yn cynnal gweithdai a gafodd eu mynychu'n dda ar y dull rheoli ar lefel yr ecosystem.
- Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn deall gofynion CNC o ran adnoddau yn dilyn Bil arfaethedig yr Amgylchedd (Cymru). Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu ym mhle y gallai cynlluniau amgylcheddol cyfredol gael eu stopio, eu symleiddio neu eu cynnwys o fewn yr ymagwedd ardal-seiliedig newydd tuag at reolaeth adnoddau naturiol integredig. Rydym wedi clustnodi angen tymor byr ar gyfer adnoddau wrth inni fuddsoddi yn y trawsnewid tuag at ffyrdd newydd o weithio ac ymagwedd mwy integredig; rydym wedi diogelu arian gan y Gronfa Natur i gefnogi'r gwaith trawsnewid.

8. Meini prawf sy'n cael eu defnyddio er mwyn penderfynu pa staff sy'n cael eu derbyn ar gyfer ein cynllun ymadael gwirfoddol

- Mae ein cynllun ymadael gwirfoddol yn fecanwaith pwysig er mwyn cyflawni ein ffigur o 1,850 o staff. Bydd unrhyw staff sy'n ymadael drwy'r cynllun hwn yn amodol ar feini prawf sgorio, a fydd yn cynnwys asesiad o'r effaith o golli sgiliau a phrofiad a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Bydd ein cynlluniau gweithlu manwl yn sbarduno'r broses ar gyfer ein rownd nesaf o ymadael gwirfoddol. Ni fydd staff yn cael eu rhyddhau lle mae'r sgiliau a'r profiad yn cael eu hystyried yn hanfodol i'r busnes ac ni ellir eu darparu mewn ffordd wahanol.

9. Manylion pellach ar ddatgysylltu systemau TG a chadarnhad o fynegiant terfynol y costau a'r amserlenni cysylltiedig

- Mae datgysylltu systemau TG yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserlen ac o fewn y cyllidebau a ragwelwyd. Ar hyn o bryd, mae 800 o staff CNC ar offer a systemau newydd CNC, a bydd holl staff CNC yn cael eu symud ar offer CNC erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Yna, bydd gwaith yn parhau i ddileu'r ddibyniaeth ar y rhan fwyaf o'r gwasanaethau TGCh sy'n cael eu darparu gan y cyrff sy'n bartneriaid yn ystod 2015/16, gydag ychydig o wasanaethau gweddilliol yn aros lle mae'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall. Cyfanswm y gost ar gyfer gwaith datgysylltu yn 2013/14 oedd £ 9.7m a'r gost a ragwelwyd ar gyfer 2014/15 yw £14.2m.
- Yn ogystal, mae'r buddion cysylltiedig â'r datgysylltu ar y trywydd iawn.

10. Angen am wirio annibynnol ar wahanu swyddogaethau, yn arbennig felly o ystyried y cynigion ar gyfer datblygu mwy o weithgareddau menter

- Rydw i'n cynnwys dogfen gyda'r llythyr hwn sy'n amlinellu ein hymateb gweithredol, drwy ddefnyddio dylunio trefniadol ac offerynnau eraill, er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni ein swyddogaethau lluosog yn dryloyw ac yn deg. Mae'r trefniadau hyn yn amodol ar adolygiad rheolaidd gan ein Bwrdd, yn cynnwys ei Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben.

11. Camau gweithredu a gymerwyd er mwyn gwella amseroedd ymateb i ymgynghoriadau cynllunio, pa bryd rydym yn disgwyl gweld gwelliannau

- Rydym wedi bod yn gweithio gyda chrynhoad o brosesau etifeddol er mwyn darparu un llais a rheoli ein baich gwaith parhaus; ac mae ein gweithlu wedi cwrdd â'r her sylweddol o ddod â gwasanaethau cyngor y tri chorff etifeddol at ei gilydd. Yn ogystal, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn ein llwyth gwaith Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd (PSCA), ac wedi addasu'n llwyddiannus iddo; nifer sylweddol o ymgynghoriadau Cynllun Datblygu Lleol; a nifer o achosion cynllunio eraill gyda phroffil uchel.
- Buom yn datblygu'r model gweithredol ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio yn CNC. Er enghraifft, rydym wedi sefydlu model llywodraethu cenedlaethol mewn perthynas â darparu a chyflawni cyngor i'r system gynllunio. Mae'r Bwrdd Cyflawni Cyngor

Cynllunio Datblygiadau yn awr yn darparu'r "Pennaeth Busnes" ar gyfer gwasanaeth cynllunio cenedlaethol CNC, yn darparu perchnogaeth prosesau, blaenoriaethu gwellhad a chysondeb, rheoli trawsnewid ac yn darparu'r cyfeiriad a'r llywodraethu sydd eu hangen.

- Yn ogystal, rydym wedi datblygu amcanion strategol ar gyfer ein cyngor cynllunio. Mae hyn yn allweddol ar gyfer sicrhau sefydlu dull cadarnhaol a'r ymgysylltiad rhagweithiol gyda'r system gynllunio fel ffordd bwysig o gyflawni datblygiad cynaliadwy, rheoli adnoddau naturiol a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer etifeddiaeth naturiol Cymru. Yn ogystal, mae hyn wedi hwyluso i adlinio ein dulliau yn y dyfodol i newidiadau allanol a gynigiwyd, er enghraifft y rhai hynny a amlinellwyd yn Cynllunio Cadarnhaol.
- Rydym wedi recriwtio staff ac wedi llenwi swyddi gwag ac wedi dod ag arbenigedd technegol ychwanegol er mwyn cefnogi meysydd lle mae galw uchel ar arbenigwyr technegol, e.e. tirwedd. Mae ein Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r De newydd adlinio ac integreiddio ei hadnodd rheoli achosion cynllunio i ddau dîm (o 9), un yn cynnwys y de-ddwyrain ac un yn cynnwys y de-orllewin; bydd ein Cyfarwyddiaeth ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru yn adlinio'n ogystal.
- Rydym wedi ymgymryd â dadansoddiad manwl o'r prosesau ac wedi datblygu atebion. Mae'r crynhoad cymhleth presennol o brosesau etifeddol wedi cael ei ddadansoddi ac mae meysydd allweddol ar gyfer gwellhad wedi cael eu nodi, atebion ar gyfer gwellhad mewn prosesau wedi'u dyfeisio, a ffyrdd gwell o weithio wedi cael eu cytuno.
- Rydym wedi gosod targedau ar gyfer amseroedd ymateb gwell ar ein cyfer, ac rydw i'n hyderus y bydd gwellhad amlwg yn ystod y chwe mis nesaf.

12. Sut yr oedd buddion heb fod yn arian parod wedi cael eu cyfrifo yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf / sut yr ydym yn bwriadu cyfrifo a chyflwyno buddion heb fod yn arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol ac yn y dyfodol

- Yn bennaf, y budd heb fod yn arian parod a wireddir yw gwerth amser staff yr ydym yn eu rhyddhau drwy wella cynhyrchiant a lleihau ymdrech wastraffus. Rydym yn creu'r arbedion effeithlonrwydd hyn gyda phrosiectau gwella busnes sy'n symleiddio'r prosesau ac yn eu canolbwyntio fwy ar y cwsmer. Bydd y prosiectau hyn yn dechrau cyflawni gwelliannau yn ystod 2014/15 ac ymlaen. Er enghraifft, bydd gwaith i symleiddio casglu samplau dŵr yn gwneud y broses honno 20% yn fwy effeithlon ac ymhen amser yn rhyddhau amser staff sy'n gyfwerth â saith swydd amser llawn. Bydd hyn yn cynyddu ein gallu ar gyfer gwaith arall gyda blaenoriaeth. Yn yr un modd, roedd newidiadau cynnar yn 2013/14 yn rhyddhau amser staff a oedd yn werth oddeutu £0.5M y flwyddyn.

- Rydym yn rheoli'r holl fuddion gwirioneddol a chynlluniedig drwy ddefnyddio cofrestr buddion, ac rydym yn tracio cyflawniad buddion heb fod yn arian parod drwy gerdyn sgorio buddion, ac yn y pen draw, drwy ein hysbysfwrdd corfforaethol.

13. Esboniad ar y £3 miliwn o arbedion

- Roedd yr arbedion o £3m yn ostyngiadau ac arbedion yn y gyllideb a gafodd eu targedu ac nid tanwariant. Cymerwyd y cam gweithredu hwn er mwyn cwrdd â phwysau yn y gyllideb yn ein rhaglen Peirianeg Sifil ar gyfer Ffyrdd mewn Coedwigoedd a chostau mewn perthynas â thrawsnewid o seilwaith TGCh a chymwysiadau Awdurdod yr Amgylchedd. Fel rhan o'r ymarfer hwnnw, roeddem yn targedu gwarged cyllidol ar ddiwedd y flwyddyn yn ogystal, er mwyn helpu i gwrdd â phwysau ariannol yn 2014-15.

Gobeithiaf fod hyn yn eich darparu gyda'r wybodaeth bellach yr oeddech yn chwilio amdani. Pe byddech angen unrhyw eglurhad pellach ar y rhain, neu ar unrhyw faterion eraill, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Emyr Roberts

**Prif Weithredwr
Chief Executive**



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Delivering our Multiple Roles as a Land Manager, Statutory Adviser and Regulator (Version 1) –

*Integrated decision making supported
by transparency and accountability*

Contents

1. Introduction and Purpose.....	10
2. Our Purpose and Roles as an organisation	10
3. The principles we have adopted for managing our multiple roles	12
4. Our Operational Response when Land Manager, Statutory Adviser and/or Regulator ..	12
4.1 As a Regulator of our own Land Manager role	13
4.1.1 Permitting.....	14
4.1.2 Arrangements between National Services and Operations	14
4.1.3 Arrangements where the application originates and is determined within National Services.....	14
4.1.4 Arrangements where the application originates and is determined within Operations.....	15
Table 1- Inter-area arrangements.....	15
4.1.5 Compliance.....	15
4.1.6 Investigation of potential offences.....	16
4.1.7 Enforcement	16
4.1.8 Charging.....	16
4.1.9 Publishing requirements for all internal permissions.....	17
4.2 Our own plans and programmes – Consultation Body (Statutory Advice) arrangements	17
4.3 Our own projects – Consultation Body (Statutory Advice) arrangements.....	18
5. Our Operational Response when Statutory Adviser and Regulator	18
Annex 1 – When operating as Land Manager and Statutory Adviser and/or Regulator - Roles and Responsibilities.....	21
.....	22
Annex 2 – When operating as Statutory Adviser and Regulator - Roles and Responsibilities.....	23
Related policies/procedures.....	25
Annex 3 – Organisation Structure.....	26

1. Introduction and Purpose

It was a deliberate and strategic decision by the Welsh Government to establish Natural Resources Wales (NRW) with multiple land management, advisory and regulatory roles. This decision reflected an aspiration to create a new and innovative approach to deliver integrated natural resource management, whereby a single organisation has at its disposal a range of tools and roles to better achieve positive outcomes for people, the environment and the economy.

This document establishes the context for our multiple roles, as well as acknowledging the challenges that these roles give us in two main areas. First, with regard to transparency of our own responsibilities as an organisation that directly delivers services, especially as a land manager - an 'operator' - in our own right. And second, in respect of our statutory responsibilities, where legislation and case law means that we are required to organise our delivery with particular requirements in mind.

The purpose of the document is to establish clarity and transparency for external stakeholders and customers. We describe our organisational design and operational responses established to achieve these objectives. They are all designed to support the decision to establish a new approach towards the delivery and facilitation of integrated natural resource management, through the creation of Natural Resources Wales.

2. Our Purpose and Roles as an organisation

The Establishment Order states the purpose of Natural Resources Wales is to ensure that the environment and natural resources of Wales are:

- (a) sustainably maintained;
- (b) sustainably enhanced; and
- (c) sustainably used.

(2) In this article –

(a) “sustainably” (“yn gynaliadwy”) means –

- (i) with a view to benefitting, and
 - (ii) in a manner designed to benefit, the people, environment and economy of Wales in the present and in the future;
- (b) “environment” (“amgylchedd”) includes, without limitation, living organisms and ecosystems.

Our purpose requires a balance to be struck and does not ascribe weight to any aspect (e.g. the environment or the economy) in preference to another. However, we have a duty to implement existing legislation and whilst it informs our approach, we must also have due regard to our purpose and use discretion and judgement in the application of specific legal requirements.

The ‘Functions Order’ transferred many duties and functions from the existing legislation and our roles can be summarised as follows:

Regulator: protecting people and the environment including marine, forest and waste industries, and prosecuting those who breach the regulations that we are responsible for

Statutory Adviser: to some 9,000 planning applications a year and also in respect of Strategic Environmental Assessment, Habitats Regulation Assessments and Environmental Impact Assessment.

Land Manager (Operator): managing seven per cent of Wales' land area including woodlands, National Nature Reserves, water and flood defences, and operating our visitor centres, recreation facilities, hatcheries and a laboratory

Technical/Policy Adviser: principal adviser to Welsh Government, and adviser to industry and the wider public and voluntary sector, and communicator about issues relating to the environment and its natural resources

Designator: for Sites of Special Scientific Interest – areas of particular value for their wildlife or geology, Areas of Outstanding Natural Beauty (AONBs), and National Parks, as well as declaring National Nature Reserves

Responder: to some 9,000 reported environmental incidents a year as a Category 1 emergency responder

Partner, Educator and Enabler: key collaborator with the public, private and voluntary sectors, providing grant aid, and helping a wide range of people use the environment as a learning resource; acting as a catalyst for others' work

Evidence gatherer: monitoring our environment, commissioning and undertaking research, developing our knowledge, and being a public records body

Employer: of almost 1,900 staff, as well as supporting other employment through contract work.

For many of the activities we are involved in we may exercise more than one role, either simultaneously or sequentially. For instance, we may provide a local authority with advice as a statutory adviser in respect of a proposed development and then be required to consider an application for a permit under a regulatory regime for the same development.

For a range of our own land management activities and those undertaken by our contractors, we are also the regulator – the body responsible for granting permits, assessing compliance, investigating potential offences and taking enforcement action. We also act as the consultation body for our own programmes, plans and projects in respect of environmental assessments such as Strategic Environmental Assessment (SEA), Habitat Regulations Assessment (HRA) and Environmental Impact Assessment (EIA). In this operator mode we also consider / facilitate third party activity on which we may then provide statutory advice to other authorities and then be required to consider applications for permits against regulatory regimes where we have responsibility.

Our Board has established high level principles to help us manage and organise these roles to achieve an agreed corporate position and avoid undue criticism. In addition our founding legislation and our legal purpose provides an overarching principle that is vital in managing our multiple roles. Namely, that no one role has primacy or priority over another. It is our responsibility to use evidence and judgement to agree the most optimal course of action recognising all our roles and our overarching purpose.

This means that our strategy decisions are key and once they have been made, all our roles can be delivered in line with our wider legislative responsibilities.

3. The principles we have adopted for managing our multiple roles

In developing its approach to corporate governance and mindful of the organisation's purpose and strategic case for a new approach to integrated natural resource management, our Board agreed to adopt a number of governance principles that aim to guide our operational responses to the management of our multiple roles:

- a. All proposals will facilitate integrated decision making by NRW in support of the ecosystem approach
- b. Functional separation will only be used when necessary, in recognition that NRW is one organisation and that regulatory and advisory functions support the same outcomes;
- c. Transparency will be a fundamental requirement both internally and externally;
- d. Delegated authorities will be based on risk thresholds.

4. Our Operational Response when Land Manager, Statutory Adviser and/or Regulator

The organisational structure for Natural Resources Wales (Annex 3) is a key component in managing our multiple roles in line with the agreed principles:

